Ar ddydd Mawrth, 21 Medi 2010 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Ysgol Trefeurig am 7.00pm
PRESENNOL: Y Cyng. D Sheppard (Cadeirydd); Daniel Jones; Richard Owen; Mrs Edwina Davies; Mrs K Walker; Melvyn Evans; Tegwyn Lewis a'r clerc

2856 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. Trefor Davies; Mrs Gwenan Price; D Mervyn Hughes a D R Morgan

2857 **Materion Personol –** dim

2858 **Datgan Buddiant Personol** / **Rhagfarnol:** dim

2859 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2010 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:

Cofnod 2834 - Rheiliau'r Gofeb Rhyfel, Penrhyncoch: Yn dilyn marwolaeth Mr Clive Davies a gontractiwyd i drwsio'r difrod i reiliau'r Gofeb Rhyfel; mae ei fab, Mr D Davies, wedi cadarnhau y bydd yn cyflawni'r gwaith. Mae'n gobeithio y bydd wedi'i gwblhau erbyn Gwasanaeth Sul y Cofio 2010.

Cofnod 2839 - Cynllun Cymorth Band Eang: Dosbarthwyd manylion cynllun i helpu i wella'r cyswllt band eang ar hyd a lled y gymuned, ond hyd yn hyn, dim ond un person sydd wedi mynegi diddordeb. PENDERFYNWYD peidio â gweithredu ymhellach ar hyn o bryd.

Cofnod 2846 – Grantiau torri glaswellt 2010: Hysbyswyd CS Ceredigion na wneir cais am grant i strimio llwybr troed 9/41 ym Mhenbontrhydybeddau. Gwnaed y gwaith yn wirfoddol gan y perchennog tir.

2860 **Trefniadau Gwasanaeth Sul y Cofio 2010:**
Mae Gwasanaeth blynyddol Sul y Cofio Cymuned Trefeurig fel arfer dan ofal Ficer Sant Ioan, Penrhyncoch, Eleni, gyda'r Parch. J Livingstone yn absennol ac yn cael triniaeth feddygol, PENDERFYNWYD cysylltu â'r Parch. S Bell o Aberystwyth i ofyn a fyddai'r Ficer a enwebwyd i gynnal y Gwasanaeth yn Sant Ioan ar ddydd Sul 14eg Tachwedd yn fodlon bendithio'r torchau yn yr Eglwys cyn cynnal y Gwasanaeth Coffa ar Sgwâr Penrhyncoch am 11 y bore.
Hefyd bydd y clerc yn cysylltu â'r Heddlu ynghylch rheoli traffig yn ystod y Gwasanaeth ac yn trefnu bod 'na fiwglwr yn bresennol

2861 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**

Cynhadledd Shelter Cymru - Llambed 25.06.10: Adroddodd y Cyng. D Sheppard ar ganlyniad prosiect tair blynedd yn Ne Orllewin Cymru sef "Gwerth Gwybodaeth i Gymunedau Gwledig" a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol. Llwyddodd y prosiect i ailgartrefu 86% o'r achosion a atgyfeiriwyd gan yr Asiantaeth. Mae Shelter Cymru'n gobeithio derbyn arian loteri pellach i ymestyn y cynllun ar draws Cymru, ond mae'n rhagweld y bydd sicrhau cyllid ar gyfer cynlluniau eraill yn mynd yn fwyfwy anodd

TraCC - Gorsaf Drenau Arfaethedig Bow Streeet - Cyfarfod 21.09.10 - Aberystwyth: Adroddodd y Cyng. Kari Walker ar y Cyfarfod lle trafodwyd gwerthusiad drafft o orsaf drenau arfaethedig Bow Street, gan gynnwys y rhagolygon o ran galw, costau a chynllun y prosiect; gweithrediadau/isadeiledd ac effaith y cynllun. Mae'r gwerthusiad drafft ar fin cael ei ystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; Swyddogion yr Awdurdod Lleol a swyddogion y diwydiant rheilffyrdd.

Cyfarfod PACT - Y Festri, Penrhyncoch: Adroddodd y Cyng. D Sheppard fod cyfarfod PACT wedi'i gynnal yn ddiweddar. Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol ac mae'r Heddwas sy'n gyfrifol am y cynllun yn teimlo y dylid adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer Cyfarfodydd PACT ym Mhenrhyncoch.

Roedd yr ohebiaeth a dderbyniwyd fel a ganlyn:-

2862 **Adran Briffyrdd Ceredigion:** Hysbysiad bod yr arwydd ffordd 'Penrhyncoch' yn cael ei ail-leoli i'r dwyrain o garej Mid Wales Travel. PENDERFYNWYD nodi hynny.

2863 **SSE Renewables:** Hysbysiad bod Adroddiad Ymgynghorol Interim ar gael i'w lawr lwytho neu gellir gweld copi caled yn y Llyfrgell Gyhoeddus a Swyddfeydd y Cyngor Sir

2864 **Casglu Gwastraff Tŷ:** Hysbysiad y bydd y trefniadau casglu gwastraff domestig yn newid ar gyfer holl gartrefi Ceredigion o 15 Tachwedd 2010. PENDERFYNWYD nodi hynny.

2865 **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cymru- rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol:** Cais am fanylion ynghylch ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd o fewn y Gymuned. PENDERFYNWYD ymateb.

2866 **Un Llais Cymru: (i)** Llythyr gan Simon White i ddweud ei fod yn ymddeol fel Prif Weithredwr Un Llais Cymru a bod Lyn Cadwallader yn dod i gymryd ei le
(ii) Trafodwyd y Cynigion i'w hystyried yn CCB Un Llais Cymru ar 9 Hydref a chydnabuwyd barn y Cyngor gan y Cyng. D Sheppard fydd yn cynrychioli'r Cyngor yn y CCB ynghyd â'r Cyng. T Davies

2867 Dosbarthwyd **copïau o gynigion drafft ar gyfer trefniadau etholiadol yng Ngheredigion yn y dyfodol** i'r Aelodau eu darllen. Gosodir hysbysiadau o amgylch yr ardal yn rhoi gwybod i'r trigolion lle gallant weld y cynigion drafft.

2868 **Comisiwn Cynllunio Isadeiledd:** Gwahoddiad i gynrychiolydd i fynychu cyfarfod yng Ngogerddan ar 18 Hydref 2010 i drafod prosesau sy'n berthnasol i geisiadau ar gyfer prosiectau isadeiledd o bwys cenedlaethol (e.e. ffermydd gwynt). Cytunodd y Cyng. R Owen i'w fynychu

Materion Ariannol

2869 **Archwilio Cyfrifon 2009/10 - Ffurflen Flynyddol:** Yn dilyn newidiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2005 ym mis Mawrth 2010, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar gyfer cwblhau Ffurflen Flynyddol 2010. Ystyriwyd y rhain gan y Cyngor a PHENDERFYNWYD eu mabwysiadu. Gwnaed y newidiadau angenrheidiol ac anfonir copïau o Adrannau 1,2 a 4 i BDO LLP, archwilwyr allanol y Cyngor, ar ôl 27 Medi ar gyfer dyddiad yr archwiliad, sef 1 Hydref 2010.

2870 **HSBC Cyfrif Cymunedol –** balans ar 13.09.10: **£3,653.06. Cyfrif Cadw: £10,077.63**

2871 **GDYT:** hysbysiad o gynnydd yn y tâl hurio stafell i £15 am ddwy awr o1/08/10. PENDERFYNWYD ei dderbyn

2872 **Cae Chwarae Penbontrhydybeddau: £50** siec rhent 2010 wedi'i derbyn a'i bancio

Cytunwyd i dalu'r biliau canlynol:

2873 **Linda Griffiths** cyfieithu Gorff. 2010: **£56.79.** Siec 1001

2874 **D Benjamin:** Glanhau 4 caban aros bws 04.08.10: **£40.** Siec 1002

2875 **Cyng. D Jones:** Teithio i CCB yn Aberaeron 21.05.10 +1 teithiwr: **£24.02.** Siec 1003

2876 **Cyng. R Owen:** Costau teithio i Gyfarfod ULlC yn Aberaeron 14/07/10: **£20.04.** Siec 1004

2877 **Cyng. K Walker:** Costau teithio i 2 gyfarfod TraCC yn Aberystwyth - 15/07/10 & 21/09/10 + teithiwr: **£18.40.** Siec 1005

2878 **P Walker:** Cyflog Gorff/Medi 2010: **£617.24.** Siec 1006

2879 **Bil BT hyd 13.09.10 Galwadau a thaliadau:** £67.64 + TAW £11.04: **£78.68.** Siec 1007

Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:

2880 **A100138** Codi adeilad amaethyddol i'r gorllewin o Llwyn, Cwmerfyn: Cymeradwywyd

2881 **A100181** Codi annedd ar dir ger Y Gelli, Penrhyncoch: Cymeradwywyd

Sylwadau ar geisiadau cynllunio:

2882 **A100543** Codi estyniad i 14 Glanceulan, Penrhyncoch: Dim sylwadau

2883 **Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Ddydd Mawrth, 19 Hydref 2010 yn Neuadd y Penrhyn am 7.00 pm**

2884 **Cytunwyd i osod yr eitemau canlynol ar yr agenda:**
Yr angen am sylfaen gwell i'r hysbysfwrdd ym Mhenrhiw. Cwyn bod sbwriel a gwastraff yn cael ei ddefnyddio i dirlenwi ym Mhenrhyncoch. Draen yn gorlifo ym Mhenbontrhydybeddau.
Mainc gyhoeddus i'r gorllewin o Fanc y Darren - angen gwirio'r stepen o'i blaen

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.45 pm